



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB
Maer: Cyng. Laura Fielding Dirprwy Faer: Cyng. Alun Rhys Jones

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, RHAGFYR Y 6^{ed} 2023**

Derbyniad o 6yh tan 7yh – sylwch mai cyfarfod cymdeithasol ydy hwn yn bennaf er mwyn dathlu'r Nadolig ac estyn gwahoddiad i'r derbynwyr grantiau i ymuno gyda ni ar gyfer dathliad cymdeithasol o'r gwaith trwy gydol y flwyddyn.

7yh byddwn yn cynnal cyfarfod byr gyda'r agenda canlynol:

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb –
(Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr y 6ed, 2023.

Taliadau i'w cyflwyno
1. Staffio ac argostau Rhagfyr £4000
2. G Roberts Gosod baneri Nadolig
Taliadau ôl-ddyddiedig
3. Lwfans gofal y Cynghorwyr £31.26 a £41.68

5. Derbyn materion brys i'w trafod

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, RHAGFYR Y 6^{ed} 2023**

Yn Bresennol: Cadeirydd: Maer Laura Fielding; Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Cyng Sharne-Marie Bellis; Cyng Leena Farhat (ar-lein); Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Chris Jones; Cyng Gareth Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg (ar-lein); Clerc y Dref Jayne Neal. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor ac ar y platfform ZOOM.

1. Estynnodd y Maer Laura Fielding groeso i bawb i'r cyfarfod a rhannodd y tasgau cymhennu cyffredinol ar gyfer y cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12) Cyng Rob Jewell; Elgan Owen
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – Cyng Gareth Wyn Jones – Rhannwyd cais cynllunio Gorwel yn y pecyn cyfarfod fel mater brys. Yn sgil cysylltiad teuluol, fe adawodd y Cynghorydd yr ystafell felly nid oedd yn rhan o'r drafodaeth. (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr y 6^{ed} 2023
Soniwyd bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol bellach yn gweithio o lyfr gwaith cyllid newydd lle bydd modd cofnodi'r cronfeydd wrth gefn gyda'u codau cyllideb yn haws. Mae hyn yn bwysicach fyth erbyn hyn gan fod y Cyngor Tref yn rheoli rhagor o geisiadau am gyllid allanol ac maen nhw wrthi'n paratoi Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau hanfodol CBS Conwy megis y llyfrgell a'r pwll padlo. Cytunwyd y bydd hyn yn fodd i'r pwyllgor cyllid gynllunio'u harchebiannau'n fwy effeithiol ar gyfer 2024/25 a thu hwnt. Doedd dim sylwadau am y manylion cyllid a'r taliadau cyfredol.
Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi
5. Derbyn materion brys i'w trafod

1. Adroddwyd am y cynnydd o faw ci yn y dref. Mae pryderon difrifol am y baw sydd o amgylch yr ysgolion ar hyn o bryd ac fe rannodd y Pennaeth hysbysiad yn gofyn i bobl gymryd mwy o ofal. Fel ymateb i hyn, mae'r Cyngor Tref wedi darparu rhagor o flychau bagiau baw cŵn yn yr ysgolion ac wedi sicrhau bod yr holl flychau'n cael eu hail-lenwi. Bydd y staff yn parhau i fynd i'r afael â'r broblem gystal â phosibl ac yn canolbwyntio ar feysydd pryder penodol.
2. Coed yn yr afon yn Nant y Coed – roedd pryderon am risg llifogydd ac felly mae gofyn i'r Clerc gysylltu gydag Arolygydd Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddo asesu hyn ar frys. Soniwyd bod modd rhoi gwybod am bryderon brys ar [wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#). Fodd bynnag, mae'r Cyngor Tref mewn cyswllt uniongyrchol â swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am Lanfairfechan felly gallwn gysylltu gydag o os oes angen.
3. Cais cynllunio 0/51286

Bu trafodaeth ddwys am y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn gan ei fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol i ddatblygu tir tua Dwyrain Gorwel. Fel cynrychiolwyr ar ran preswylwyr Llanfairfechan, mae'n bwysig ystyried y datblygiad hwn o ran yr effaith ehangach ar y dref ac ardal gyfagos Gorwel. Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

1. Mae'r cais cynllunio hwn yn gofyn am ddymchwel tŷ er mwyn darparu mynediad i ddatblygiad arfaethedig ar y tir tua chefn ystâd Gorwel. Yn gyntaf oll fe fydd un tŷ'n llai ar gael yn Llanfairfechan ar adeg lle mae mwy o alw nac erioed am dai.
2. Os caiff y datblygiad sydd wedi'i gynllunio ei weithredu, mae pryderon sylweddol gan breswylwyr a'r Cyngor Tref ynghylch llwybrau mynediad i'r safle. Soniwyd bod llwybrau mynediad y pentref uchaf cyfan eisoes yn wael ar hyd ffyrdd nad oes modd eu hehangu gan fod tai wedi'u hadeiladu yno. Dros y blynyddoedd, mae CBS Conwy a Chyngor Tref Llanfairfechan wedi'u galw i sawl cyfarfod safle yn trafod problemau traffig yn sgil natur fryniog y tir yn yr ardal a phryderon ynghylch gwelededd cerbydau sy'n symud a pharcio. Mae pryderon ynghylch y traffig adeiladu yn ystod unrhyw gyfnod adeiladu, ond yn fwy penodol, yr effeithiau hirdymor unwaith caiff ystâd newydd ei adeiladu.
3. Mae Dŵr Cymru wedi ymateb i bryderon ynghylch draenio o ran y system garthffosiaeth hyd yma. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio'r dŵr sefyll ymhellach drwy CBS Conwy a'r dogfennau a dderbyniwyd ynghlwm â'r wybodaeth gynllunio.
4. Dengys trafodaethau parhaus gyda CBS Conwy yn glir, er cafodd pen Dwyreiniol safle Gorwel ei gyflwyno fel safle ymgeisio CDLI arfaethedig, mae wedi'i ddiystyru am y rhesymau canlynol:
 - a. Dydy Adran Briffyrdd CBSC ddim yn derbyn bod y problemau mynediad wedi'u goresgyn ac maen nhw'n bryderus ynghylch y pwysau ychwanegol ar y priffyrdd yn yr ardal honno.
 - b. Mae'r safle y tu hwnt i'r ardal anheddu fel y nodwyd yn y [ddogfen Hierarchaeth Anheddau y CDLI](#)

Cytunwyd fod yr wybodaeth am gais cynllunio 0/51286 ond wedi'i dod i law yn ddiweddar iawn a byddai ymchwil pellach yn digwydd i ffurfioli'r adroddiadau arsylwadau ar gyfer CBS Conwy. Bydd y Clerc yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol o'r cais er mwyn sicrhau bod y Cynghorwyr yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Soniwyd bod cyfarfod am Gynllun Disodli'r CDLI wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, Rhagfyr y 7^{fed} yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ac mae croeso i bawb sydd â diddordeb ymuno ynddo. Bydd hyn yn gyfle i gadarnhau'r wybodaeth gyfredol a gasglwyd am y safle ymgeisio a thrafod y rhesymau dros beidio â dewis Pen Dwyreiniol safle Gorwel. Cytunwyd yn unfrydol na fyddai'n briodol cyfarfod gyda'r datblygwr oni bai fod hynny mewn cyfarfod cyhoeddus. Yn sgil y cyfyngiadau amser, bydd y Cyngor Tref yn casglu eu gwybodaeth o'r dogfennau a'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn cyflwyno'u dogfen mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau ar Ragfyr y 25ain.

Daeth y cyfarfod i ben am 7:50yh

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!